# Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid

## Pecyn Recriwtio




CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

# Cynnwys


**Croeso gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr** 5

**Ynglŷn â Sir Conwy** 6

- Prif Drefi Strategol 6
- Prif Ffyrdd Cludiant 6

**Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd** 8

**Cynllun Corfforaethol 2022-2027** 9

**Adroddiad Hunanasesu Perfformiad 2024-2025** 9

**Ein Cyllid - Treth y Cyngor 2025/2026** 10

**Cipolwg ar beth mae'r Cyngor yn ei wneud** 12

**Y Cabinet** 13

**Siart Sefydliadol** 14

**Swydd-ddisgrifiad** 16

- Trosolwg 16
- Cyfrifoldebau Cyffredinol Pennaeth Gwasanaeth 17
- Dyddiad Adolygu/Hawl i Amrywio 22

**Manylion am yr Unigolyn** 24

**Graddfa Gyflog Prif Swyddog 01/04/2025-26** 27

**Amodau a Thelerau Gwasanaeth/Buddiannau Gweithiwr** 28

**Sut i Ymgeisio** 30

**Diolch** 32





This document is also available in English.



# Croeso gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr

## Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn y swydd wag yn ein uwch-dîm rheoli. Wrth i ddeiliad y swydd baratoi i ymddeol, rydym yn chwilio am ymgeiswyr i'r swydd Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid. Dyma gyfle ardderchog i fod ar flaen y gad wrth gyflawni dyheadau strategol y Cyngor i arloesi a thrawsnewid ar adeg pan mae llywodraeth leol yn dal i wynebu heriau mawr.

Rydym yn chwilio am arweinydd â gweledigaeth sy'n barod i gydweithio wrth sbarduno newid yn y sefydliad, cefnogi gwasanaethau i foderneiddio a hyrwyddo ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid ac wedi'u hwyluso gan dechnoleg ddigidol. Bydd gennych brofiad o gyflawni rhaglenni trawsnewid mawr, dylanwadu ar newid diwylliant a defnyddio technoleg a data, ac yn medru dangos tystiolaeth o'r newidiadau a wnaethoch i wella'r canlyniadau i breswylwyr a chryfhau darpariaeth gwasanaethau.

Mae'n hanfodol ail-ffurfio'r ffordd y darperir gwasanaethau'r Cyngor er mwyn bodloni anghenion ein cymunedau'n awr ac yn y dyfodol. Byddwch yn chwarae rhan hollbwysig wrth arwain ein rhaglen drawsnewid, gan weithio'n agos â Phenaethiaid Gwasanaethau eraill i adlunio a moderneiddio gwasanaethau a sicrhau y cedwir trosolwg strategol graff ar yr holl waith newid gydol y sefydliad.

Fe gewch gefnogaeth gan dîm galluog sy'n arwain ein Gwasanaeth TG a Thrawsnewid Digidol a'r Tîm Moderneiddio Corfforaethol, gan sicrhau fod gan y Cyngor isadeiledd digidol sicr a chydnerth sy'n barod am y dyfodol ac yn hwyluso profiadau o ansawdd uchel i gwsmeriaid.

Bydd eich cylch gwaith yn cynnwys datblygu'r Strategaeth TG Gorfforaethol, bod yn effro i'r datblygiadau technolegol diweddaraf sydd ar y gorwel, cefnogi gweithrediad ein Rhaglen Wytnwch a sicrhau y gall pobl gael mynediad rhwydd at wasanaethau mewn ffyrdd sy'n gyson ac yn bodloni eu hanghenion. Fel uwch-arweinydd, bydd disgwyl ichi osod esiampl wrth arwain mewn ffordd gynhwysol a chydweithredol a chanolbwyntio ar ganlyniadau, gan helpu i wreiddio diwylliant o wella'n barhaus ac arloesi a hybu tegwch a chynhwysiant gydol yr Awdurdod.

Rydym yn ymfalchïo mewn bod yn gyflogwr ardderchog sydd â diwylliant cryf o weithio fel tîm. Ein gwerthoedd - gofalu am yr hyn a wnawn ni, bod yn deg, arloesol a gweithio'n wych mewn tîm – sy'n llywio popeth rydym yn ei wneud. Rydym yn dal ati i foderneiddio, chwilio am gyfleoedd newydd ac ymateb yn gadarnhaol i'r heriau rydym yn eu hwynebu. Mae ein tîm o arweinwyr profiadol, rheolaeth ariannol gref, trefniadau llywodraethu uchel eu parch a gwasanaethau cefnogi rhagorol o fantais fawr inni wrth gymryd y cam nesaf yn ein taith drawsnewid.

Rydym yn awdurdod dwyieithog, sydd â balchder aruthrol yn ein treftadaeth Gymreig a darpariaeth ardderchog gan y gwasanaethau cyfieithu a dysgu Cymraeg. Rydym yn chwilio am uwch-reolwr a fydd yn ffynnu mewn diwylliant sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, ysbrydoli timau ac ymdrechu i gyflawni newid ystyrlon sy'n rhoi pobl yn gyntaf.

Hyderwn eich bod mor frwdfrydig â ninnau am y cyfle hwn ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir



Y Cynghorydd Julie Fallon
Arweinydd



Rhun ap Gareth
Prif Weithredwr

# Ynglŷn â Sir Conwy

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i lleoli'n ganolog yng ngogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 114,000. Mae tua 38% o'i harwynebedd a 4% o'i phoblogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae tirlun Bwrdeistref Sirol Conwy yn eithriadol, yn amrywio o draethau tywod helaeth a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, gweundiroedd agored a mynyddoedd ysgithrog. Nid yw'n syndod fod ei heconomi'n dibynnu'n fawr ar dwristiaeth. Mae'r ardaloedd gwledig a'u cymunedau yn dibynnu ar weithgaredd amaethyddol a choedwigaeth, er nad yw'r sectorau hyn yn darparu lefel uchel o gyflogaeth uniongyrchol.

Mae'r rhimyn cul ar hyd yr arfordir yn cynnwys tua 90% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol gyda'r ddwy dref, Llandudno a Bae Colwyn, ar y brig o ran nifer eu poblogaeth. Mae Conwy wledig yn lle atyniadol, amaethyddol yn bennaf heb lawer o swyddi amgen ac ond ychydig o bwysau datblygu. Mae'r boblogaeth yn denau ac yn Gymraeg ei hiaith yn bennaf. Y brif anheddiad o ran nifer y boblogaeth yw tref farchnad Llanrwst.

## Prif Drefi Strategol

Mae prif drefi strategol Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys:

- **Llandudno** - tref wyliau bwysig a chanolfan ranbarthol hefyd ar gyfer siopa a diwylliant, yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn
- **Bae Colwyn** - blaenoriaeth adfywio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru. Mae Bae Colwyn wedi cael buddsoddiad sylweddol
- **Cyffordd Llandudno** - canolbwynt strategol allweddol yng ngogledd Cymru, sy'n cysylltu'r Gogledd-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin, sydd hefyd yn gweithredu fel canolfan fanwerthu, gwasanaethu a chyflogaeth ar gyfer cefnwlad fawr. Mae Cyffordd Llandudno hefyd yn gartref i brif swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y Gogledd
- **Llanrwst** - tref farchnad bwysig a chanolfan gwasanaethau yn Nyffryn Conwy, yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedau gwledig
- **Abergele** - cyn-dref marchnad a chanolbwynt adfywio sydd wedi ei lleoli yn nwyrain y sir
- **Conwy** - yn dref furiog hanesyddol ac arwyddocaol, mae Conwy yn ganolfan economaidd, cymdeithasol a diwylliannol allweddol yn y Gogledd. Mae ei phensaernïaeth ganoloesol a'i chastell sy'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, yn denu twristiaid o bob cwr o'r byd, sy'n hwb mawr i'r economi lleol. Mae'r dref mewn lleoliad perffaith i fanteisio ar gyfleoedd economaidd rhanbarthol mewn sectorau fel gweithgynhyrchu, ynni a digidol, ac yn ganolfan fywiog ar gyfer digwyddiadau masnachol a chymunedol.

## Prif Ffyrdd Cludiant

Y modd pwysicaf o gyrraedd Bwrdeistref Sirol Conwy, teithio oddi mewn iddi a'i gadael yw'r A55 ar hyd yr arfordir (Euroroute E22), y rheilffordd gyfochrog o Fanceinion a Llundain i Gaergybi, a'r A5 i'r de. Mae'r A470 yn darparu cyswllt rhwng y de a'r gogledd ac yn rhedeg yn gyfochrog â rheilffordd sy'n cysylltu Cyffordd Llandudno a Blaenau Ffestiniog.



# Ein Gweledigaeth a’n Gwerthoedd

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Conwy County Borough Council**

| Ein Gweledigaeth | Our Vision |
|---|---|
| Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd | Conwy - a progressive County creating opportunity |

| Ein Gwerthoedd | Our Values |
|---|---|
| Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith | We care about what we do |
| Rydym yn deg â phawb | We are fair to all |
| Rydym yn arloesol | We are innovative |
| Rydym yn gweithio fel tîm | We are team players |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

# Cynllun Corfforaethol 2022-2027

Mae ein cynllun yn nodi ein huchelgeisiau i wneud gwahaniaeth i bobl Conwy dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn cyflawni ein canlyniadau hirdymor i ddinasyddion. Mae’r cynllun wedi’i ddatblygu ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd gan gymunedau, a thrwy ddadansoddi ymchwil a thueddiadau data am y sir, sydd wedi llywio ein blaenoriaethau. Bydd ymgysylltu ar Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2027 ymlaen yn dechrau yn 2026.

Mae’r Cynllun Corfforaethol yn nodi’r camau gweithredu allweddol y byddwn ni’n eu dilyn er mwyn adnewyddu ac ailadeiladu. Ni allwn gyflawni ein nodau heb ein staff ac mae blaenoriaethu lles a sgiliau staff yn hanfodol ar gyfer darparu ein gwasanaethau. Rydym yn falch o fod â gweithlu cryf ei gymhelliant wedi’u hyfforddi’n dda ac sy’n gweithio’n galed. Rydym ni hefyd yn hynod o ddiolchgar ac yn falch o’r ffordd mae cymunedau, gwirfoddolwyr, partneriaid a’n staff yn gweithio gyda’i gilydd i wneud gwahaniaeth. Mae’r canolbwynt hwn ar y gymuned a’r cadernid yn rhywbeth yr ydym yn ceisio adeiladu arno drwy waith partneriaeth, er mwyn creu cyfleoedd newydd a helpu ein sir i ffynnu. Mae’r pandemig a’r argyfwng costau byw wedi creu nifer sylweddol o faterion cymhleth, ond mae hefyd wedi dod â chyfleoedd i weithio a darparu gwasanaethau yn wahanol a dyma’r hyn yr ydym ni eisiau canolbwyntio arno.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **Cynllun Corfforaethol Conwy 2022-27**.

# Adroddiad Hunanasesu Perfformiad 2024-2025

Yn rhan o’n gwelliant parhaus, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyhoeddi Adroddiad Hunanasesu Perfformiad bob blwyddyn i esbonio’r hyn sydd wedi’i wneud i gyflawni gwelliannau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, a lle mae angen i ni wneud rhagor o welliannau. Mae hyn yn ofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Perfformiad**.

# Ein Cyllid - Treth y Cyngor 2025/2026

Mae copi o'n hadroddiad llawn 'Buddsoddi yn Eich Cymuned - Treth y Cyngor Conwy 2025/26' ar gael yma: **https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Council-Tax/assets/documents/council-tax-leaflet-2025.pdf**

## Beth y caiff eich arian ei wario ar bob blwyddyn 2025/26


Mae'r enghraifft yma'n seiliedig ar **dreth y cyngor eiddo Band D** o **£1,888.51** y flwyddyn.


**Addysg, Ysgolion ac Gwasanaeth Ieuenctid**

£594.81

**Gofal Cymdeithasol**

£617.36

**Costau Llog ac Ad-dalu Asedau**

£143.28

**Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a Rhyddhad Ardrethi Busnes**

£83.77

**Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol**

£55.41

**Taliadau i'r Gwasanaeth Tân a'r Parc Cenedlaethol**

£55.70

**Gwagio Biniau ac Ailgylchu**

£33.06

**Priffyrdd ac Isadeiledd**

£28.64

**Cludiant Ysgol**

£46.66

**Gwarchod y Cyhoedd, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd**

£24.86

**Moderneiddio a Ffioedd Corfforaethol**


£32.56

**Twristiaeth, Theatrau, Cynadleddau a Digwyddiadau**

£9.82

**Rheoli Adeiladau'r Cyngor**


£10.87


**Democratiaeth**

£14.07

**Gwastraf i safle ynni/gwarediad**

£14.51

**Llyfrgelloedd**

£15.37


**Glanhau Strydoedd**

£15.14

**Pyllau Nofio a Chanolfannau Hamdden**

£18.95


**Atal Digartrefedd**


£38.94

**Cefnogi Busnesau a'r Gymuned**

£9.68

**Parciau a Gerddi**

£9.93


**Tîm Refeniw a Budd-daliadau ac Asesiad Ariannol**

£10.97

**Rheoli Cefn Gwlad**

£4.15

## Sut rydym yn cael ein cyllido

Wyddoch chi mai dim ond


o'n cyllid sy'n dod gan Dreth y Cyngor?




| | |
|---|---|
| Grant Cefnogi Refeniw | £176.6m |
| Swm a godwyd gan dalwyr y Treth y Cyngor | £100.9m |
| Ardrethi busnes wedi eu hail-ddosbarthu | £42.4m |
| **Cyfanswm** | **£319.9m** |

# Cipolwg ar beth mae'r Cyngor yn ei wneud

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi bywydau pob dydd trigolion y Sir a'r rhai sy'n ymweld â hi. Dyma gipolwg o'r gwasanaethau amrywiol hyn ac o lefel gyfartalog y galw y mae'n rhaid i ni ei fodloni.



## Cip ar beth rydym yn ei wneud mewn ...

### DIWRNOD

**15,247 O BLANT**
yn cael addysg mewn **51** o ysgolion cynradd, **7** o ysgolion uwchradd ac **1** ysgol arbennig

**9,730 O BLANT**
yn cael pryd bwyd yn yr ysgol

**2,920 O BOBL**
yn ymweld â'n **12** canolfannau hamdden a phyllau nofio

**208 O BLANT**
yn derbyn gofal drwy ein Gwasanaethau Cymdeithasol

**141 O BLANT**
ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

**21 O DDIGWYDDIADAU**
teledu cylch cyfyng yn cael eu cofnodi

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

### MIS

**294,047 O YMWELIADAU**
â gwefan y Cyngor

**331 O GEISIADAU**
am swyddi wedi'u derbyn

**189 O FUSNESAU**
yn cael cyngor a chyfarwyddyd i'w cefnogi

**1,313 O GYSYLLTIADAU**
yn cael eu derbyn ar gyfer plant ac oedolion

**847 O OEDOLION**
yn derbyn gofal cartref

**61 O OEDOLION**
yn derbyn cymorth ailalluogi

**132 O GAMERÂU**
teledu cylch cyfyng yn cael eu monitro mewn mannau cyhoeddus

### BLWYDDYN

**8,959,780 O GYNWYSYDDION**
ailgylchu a gwastraff yn cael eu casglu

**36,800 O DUNELLI**
o ddeunydd a gesglir wrth ymyl y ffordd yn cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio

**1,500 O DIPIO ANGHYFREITHLON**
yn cael eu clirio

**201,291 O DOCYNNAU**
yn cael eu gwerthu (Venue Cymru a Theatr Colwyn)

**16,700 O OLEUADAU STRYD**
yn cael eu cynnal a'u cadw

**543 O SEREMONÏAU**
(priodasau a phartneriaethau sifil) yn cael eu cynnal

**983 O GEISIADAU**
am ganiatâd cynllunio'n cael eu derbyn

### Rydym yn cynnal a chadw

**2,600 o erwau**
o barciau, coetiroedd a mannau agored

**75 cilometr**
o dir ar hyd yr arfordir

**117 cilometr**
o ffyrdd A

**666 cilometr**
o ffyrdd B a C

**825 cilometr**
o ffyrdd lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

01492 574000

conwy.gov.uk

facebook.com/CBSConwy

instagram.com/CBSConwy

linkedin.com/company/CBSConwy



# Y Cabinet



Cyng. Julie Fallon
Arweinydd




Cyng. Chris Cater
Aelod Cabinet Cyllid a Chynllunio Strategol



Cyng. Sharon Doleman
Aelod Cabinet Economi Cynaliadwy a Chyfathrebu



Cyng. Hannah Fleet
Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion Integredig ac Adnoddau Dynol



Cyng. Stephen Price
Aelod Cabinet Tai, Rheoleiddio ac Archwilio



Cyng. Mike Priestley
Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Ffyrdd ac Isadeiledd



Cyng. Kay Redhead
Aelod Cabinet Plant a Diogelu




Cyng. Dilwyn Roberts
Aelod Cabinet Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Llywodraethu



Cyng. Aaron Wynne
Aelod Cabinet Addysg

# Siart Sefydliadol



# Swydd-ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid | **Adran/ Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Arloesi a Thrawsnewid |
| **Oriau:** | 37 awr yr wythnos | **Lefel:** | Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2 (H5 - H8) |
| **Yn atebol i'r:** | Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau | **Yn gyfrifol am:** | 4 yn uniongyrchol a tua 75 o staff yn y gwasanaeth |
| **Lleoliad:** | Hybrid/Swyddfeydd y Cyngor, Coed Pella, Bae Colwyn | | |

## Trosolwg

Bydd y Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid yn chwarae rhan allweddol wrth ddylanwadu ar y ffordd rydym yn gweithio, gan gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaethau i roi dulliau newydd ar waith yn gyflym a rhoi gorolwg strategol ar ganolbwyntio ar gwsmeriaid, gwasanaethau digidol a thrawsnewid gwasanaethau gydol yr Awdurdod.

Fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, bydd y Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid yn cydweithio i sefydlu ffyrdd newydd o weithio, pennu safonau cyson ar gyfer cwsmeriaid, TG, prosiectau a rhaglenni, ac arwain newid yn y sefydliad.

Y Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid yn y pen draw fydd yn atebol am arwain, ysgogi a datblygu staff y Gwasanaeth Trawsnewid a rheoli hynny'n weithredol, gan gynnwys:

- Y Gwasanaeth TG a Thrawsnewid Digidol
- Y Tîm Moderneiddio Corfforaethol.

Bydd hefyd yn cydweithio â gwasanaethau cefnogi corfforaethol eraill.

Fel uwch-reolwyr, mae'r holl Benaethiaid Gwasanaethau'n chwarae rhan hollbwysig wrth ddylanwadu ar ddiwylliant cynhwysol yn ein sefydliad a'i gynnal. Maent yn gyfrifol am bennu disgwyliadau pendant ac yn rhannu atebolrwydd ar y cyd am sefydlu arferion cynhwysol ar bob lefel a gosod esiampl er mwyn creu'r amgylchiadau lle mae pob cydweithiwr a chwsmer yn cael tegwch, urddas a gwir ymdeimlad o berthyn.

## Prif feysydd cyfrifoldeb:

1. Darparu arweinyddiaeth a gorolwg strategol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau gydol yr Awdurdod, gan sicrhau y cyflawnir y blaenoriaethau corfforaethol.
2. Arwain y drefn o adolygu a gweithredu'r Strategaeth Gwytnwch, gan gynnwys rhaglenni a ffrydiau gwaith fel cyllid, arloesi digidol, profiadau cwsmeriaid, y gweithlu ac adlunio gwasanaethau.
3. Cydweithio â Phenaethiaid Gwasanaethau i ganfod a hyrwyddo cyfleoedd i wella gwasanaethau, hybu effeithlonrwydd a moderneiddio.
4. Rhoi anogaeth i gynnal adolygiadau prosesau busnes ac arfer dulliau sy'n seiliedig ar ddata, er mwyn sicrhau yr adlunnir gwasanaethau ar sail gwybodaeth reolaethol o ansawdd uchel. Sicrhau y caiff hen ffyrdd o weithio eu herio ac y sefydlir ffyrdd newydd o weithio.
5. Goruchwylio'r drefn o ddylunio'r Fframwaith Prosiectau a Rhaglenni, ei gymeradwyo a'i weithredu, gan sicrhau y cyflawnir y buddion ac y canolbwyntir ar gwsmeriaid wrth wneud yr holl newidiadau.
6. Hyrwyddo newid sefydliadol a gosod esiampl o fod yn gynhwysol, cydweithredol a chanolbwyntio ar ganlyniadau wrth arwain.
7. Gwreiddio diwylliant o wella'n barhaus, arloesi a phenderfynu ar sail tystiolaeth.
8. Bod yn gyfrifol am osod y cyfeiriad i'r sefydliad ar gyfer trawsnewid digidol, isadeiledd TG a gwella gwasanaethau drwy dechnoleg.
9. Datblygu'r Strategaeth TG Gorfforaethol - gan gynnwys y weledigaeth ar gyfer diogeledd TG, seibrgadernid, argyfyngau sifil posib, moderneiddio, sgiliau digidol a gwella gwasanaethau.
10. Sicrhau fod systemau TG, llwyfannau digidol a thechnoleg i gwsmeriaid yn gadarn, yn ddiogel ac wedi'u datblygu'n strategol.
11. Datblygu a goruchwylio dulliau digidol a TG sy'n gwella profiadau cwsmeriaid, gan sicrhau y caiff pobl fynediad at wasanaethau'n rhwydd, yn gyson ac mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion.
12. Bod yn effro i dechnoleg newydd sydd ar y gorwel a'r datblygiadau diweddaraf yn y sector, a rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Rheoli am gyfleoedd a risgiau.
13. Arwain datblygiad strategaeth cwsmeriaid gorfforaethol i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddylunio gwell ffyrdd o ymwneud â chwsmeriaid sy'n fwy hygyrch, graenus ac ymatebol.
14. Goruchwylio sianeli digidol ar gyfer cyswllt â chwsmeriaid er mwyn sicrhau profiadau cyson a graenus.
15. Defnyddio data sy'n deillio o feithrin cyswllt â chwsmeriaid a chael eu barn yn sail ar gyfer gwella ac adlunio'r gwasanaeth.
16. Bod yn gyfrifol am gyllideb refeniw net gwerth tua £3,733,000 a rheoli cyllid cyfalaf ychwanegol a grantiau a ddyrennir.
17. Bod yn uniongyrchol gyfrifol am bedwar o aelodau o staff yn y meysydd cyfrifoldeb canlynol:
    - Perfformiad Busnes a Gwella TG
    - Isadeiledd a Datrysiadau TG
    - Systemau a Chefnogaeth TG
    - Moderneiddio Corfforaethol

    a bod yn gyfrifol yn gyffredinol am tua 75 o staff (72 yn gyfwerth â llawn-amser).

## Cyfrifoldebau Cyffredinol Pennaeth Gwasanaeth

## Rheolaeth Gyffredinol

Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol, strategol a gweithredol y gwasanaeth/au, gan gynnwys arwain wrth ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau'r gwasanaeth (nid yw'r gwasanaethau a reolir o reidrwydd yn sefydlog ac mae'n bosibl y byddant yn newid eto yn y dyfodol wrth i flaenoriaethau corfforaethol neu anghenion sefydliadol newid).

## Polisïau a Strategaethau

Arwain datblygiad a gweithrediad polisïau a strategaethau ar lefelau gwasanaeth, corfforaethol a rhanbarthol sy'n cyflawni safonau uchel a gwelliant parhaus yng nghanlyniadau a safonau'r gwasanaeth.

## Cyflawni Swyddogaethau Statudol

Bod ag Awdurdod Dirprwyedig i benderfynu ar ran yr Awdurdod.

## Rheolaeth Gyffredinol y Cyngor

Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol gyda rheolaeth gyffredinol y Cyngor drwy'r gwasanaethau penodol gan sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau, strategaethau a phrif brosiectau'r Cyngor yn effeithiol.

## Uwch Dîm Rheoli

Darparu arweinyddiaeth i wasanaethau penodol y Cyngor drwy fod yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn integreiddio'r drefn o ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau.

## Perfformiad ac Effeithlonrwydd - Budd y Gymuned

Chwarae rhan allweddol wrth hybu perfformiad ac effeithlonrwydd gydol y Cyngor ac ymysg ei bartneriaid er budd y gymuned.

Cydweithio i bennu blaenoriaethau, dylunio gwasanaethau a'u darparu ar lefelau isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Arwain a goruchwylio strategaethau a pherfformiad amlddisgyblaethol gydag amryw bartneriaid statudol.

Nodi a rheoli risgiau.

## Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau Pennaeth Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| **1.** | **Arweinyddiaeth** |
| 1.1 | Darparu amgylchedd dysgu ac ymagwedd gadarnhaol, ragweithiol a hyblyg wrth wneud penderfyniadau. |
| 1.2 | Darparu arweinyddiaeth strategol ac effeithiol mewn cydweithrediad â Phenaethiaid Gwasanaeth eraill i gyflawni cynlluniau penodol yn y maes gwasanaeth dan sylw a gydol y Cyngor er mwyn cyflawni cynlluniau corfforaethol, ynghyd â rhai rhanbarthol a chenedlaethol. |
| 1.3 | Cefnogi'r Prif Weithredwr i fynegi gweledigaeth o'r ffordd y dylai'r sefydliad weithredu yn y dyfodol a dod ag eraill ynghyd i gydweithio er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno. |
| **2.** | **Dyletswyddau Statudol** |
| 2.1 | Darparu cefnogaeth a chyngor proffesiynol i'r Aelodau a Chyfarwyddwyr Strategol i'w cefnogi i gyflawni amcanion y Cyngor a'i gyfrifoldebau statudol. |
| **3.** | **Gweledigaeth** |
| 3.1 | Gosod esiampl o ddiben a gweledigaeth y sefydliad a sicrhau bod rheolwyr yn canolbwyntio ar gyflawni'r weledigaeth honno. |
| **4.** | **Darparu Gwasanaethau, Comisiynu, Adolygu, Adlunio, Safonau, Cwsmeriaid** |
| 4.1 | Sicrhau y caiff amrywiaeth addas o wasanaethau cyfoes ei gynllunio, ei gomisiynu a'i ddarparu er mwyn bodloni anghenion defnyddwyr y gwasanaethau, gan gynnwys datblygu cynlluniau busnes. |
| 4.2 | Sicrhau y caiff y gwasanaethau hyn eu trefnu'n effeithiol a'u bod yn gost effeithlon, a'u hadolygu a'u hadlunio lle bo'r angen er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fodloni'r anghenion. |
| 4.3 | Sicrhau gwasanaethau graenus sy'n gyson â chanllawiau a safonau statudol ac arferion da. |
| 4.4 | Ymroi i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid a diwallu eu hanghenion. |
| 4.5 | Sicrhau bod anghenion, risgiau a materion yn cael eu codi'n gorfforaethol a rhanbarthol a sicrhau fod yno gydweithio effeithiol. |
| 4.6 | Adrodd i Bwyllgorau Craffu a chael eich dal i gyfrif ganddynt. |
| **5.** | **Gweithio mewn Partneriaeth**<br>Mae gweithio mewn partneriaeth yn gyfran sylweddol o swyddogaeth Pennaeth Gwasanaeth: |
| 5.1 | Creu a datblygu partneriaethau effeithiol gyda gwasanaethau mewnol ac asiantaethau a sefydliadau allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor i gyflawni ei nodau a'i amcanion strategol. |
| 5.2 | Meithrin cyswllt yn effeithiol â phartneriaid statudol; herio a'u dal i gyfrif fel bo'r angen. |
| 5.3 | Hyrwyddo a datblygu perthnasoedd gwaith, meithrin diwylliant o weithio mewn partneriaeth yn y Cyngor a thu hwnt a lle bo'n briodol, derbyn cyfrifoldeb ac arwain amryw brosiectau a rhaglenni o bwys rhanbarthol. |
| **6.** | **Datblygu Polisïau a Strategaethau Gwasanaeth Corfforaethol, Rhanbarthol a Chenedlaethol** |
| 6.1 | Datblygiad a gweithredu polisïau a strategaethau sy'n cyflawni safonau uchel a gwelliant parhaus yng nghanlyniadau a safonau'r gwasanaeth a'i ddefnyddwyr. |
| 6.2 | Cyfrannu at ddatblygu strategaethau gwasanaethau eraill yng nghylch gwaith y Pennaeth Gwasanaeth neu wasanaethau eraill y Cyngor. Gyda phartneriaid statudol yn lleol a rhanbarthol. |
| 6.3 | Cyfrannu at bolisïau cenedlaethol a dyraniad adnoddau a dylanwadu arnynt. |
| **7.** | **Newid a Gwelliant Parhaus** |
| 7.1 | Hyrwyddo newid a gwelliant o fewn y gwasanaethau penodol ac o fewn y Cyngor yn gyffredinol. |
| 7.2 | Llunio a goruchwylio cynlluniau gweithredu mewn ymateb i arolygon gan gyrff rheoleiddio allanol, Adolygiadau Statudol a chyfraith achos sy'n berthnasol i bortffolios gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| 7.3 | Cyfleu a darparu gweledigaeth ar gyfer gweithwyr ynghylch newidiadau a gwelliant. |
| 7.4 | Monitro a defnyddio data perfformiad i feincnodi gwasanaethau ac fel tystiolaeth ar gyfer datblygiadau gwasanaeth. |
| 7.5 | Paratoi'r Cyngor ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol drwy ganfod cyfleoedd newydd. |
| **8.** | **Rheoli Adnoddau** |
| 8.1 | Bod yn atebol yn y pen draw am reoli adnoddau yn y maes/meysydd gwasanaeth penodol a rhannu cyfrifoldeb gyda Phenaethiaid Gwasanaeth eraill i gyflawni amcanion cyffredin. |
| 8.2 | Sicrhau y caiff cyllidebau ac adnoddau eraill eu cynllunio a'u monitro a bod gwariant dan reolaeth er mwyn sicrhau bod pob rheolwr gwasanaeth yn deall ac yn derbyn cyfrifoldeb am gadw cyllidebau cytbwys. |
| 8.3 | Adnabod cyfleoedd i gwtogi ar wasanaethau a/neu ddulliau darparu amgen a'u gweithredu lle bo'n briodol. Cydbwyso hynny â'r risg o wynebu adolygiad barnwrol yn unol â'r atebolrwydd i gyflawni swyddogaethau statudol. |
| 8.4 | Sicrhau strwythur pendant ar gyfer atebolrwydd a rheolaeth. |
| 8.5 | Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth wrth gyflawni ei nodau ac amcanion strategol ac adnabod cyfleoedd i sicrhau cymaint â phosib o grantiau i'r gwasanaeth a'r Cyngor yn gyffredinol. |
| 8.6 | Cyflwyno Achosion Busnes yn seiliedig ar dystiolaeth lle bo perygl na ellir cyflawni swyddogaethau statudol. |
| 8.7 | Goruchwylio ceisiadau grant a chanlyniadau ynghyd â'r gyllideb graidd. |
| 8.8 | Trafod bargen deg ar gyfer preswylwyr Conwy yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth mewn gwaith comisiynu rhanbarthol ac is-ranbarthol a datblygiadau gwasanaeth. |
| 8.9 | Nodi gostyngiadau, arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd refeniw newydd i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol. |
| 8.10 | Bod yn atebol am asedau, gan gynnwys offer mewn adeiladau a gwasanaethau, a chanfod ffrydiau cyllido a chyfleoedd i weithio â phartneriaid i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. |
| **9.** | **Diogelwch, Ansawdd a Rheoli Perfformiad** |
| 9.1 | Datblygiad a gweithredu polisïau a strategaethau sy'n cyflawni safonau uchel a gwelliant parhaus yng nghanlyniadau a safonau'r gwasanaeth a'i ddefnyddwyr. |
| 9.2 | Sicrhau y darperir yr hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau angenrheidiol i staff fel y gallant wneud eu gwaith yn ddiogel. Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau proffesiynol arbenigol, ac ar ran pobl yng Nghonwy sy'n ddiamddiffyn ac mewn perygl. Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ac arwain drwy esiampl. |
| 9.3 | Sicrhau y cesglir gwybodaeth ariannol a data am ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau yn gywir, a defnyddio data perfformiad yn gyson. |
| 9.4 | Defnyddio cynlluniau busnes a phrosiect, dangosyddion perfformiad a mesuryddion canlyniadau i arddangos diwylliant o berfformiad uchel. |
| 9.5 | Sefydlu fframwaith i sicrhau arferion proffesiynol o safon yn y gwasanaethau, gan gynnwys cynnal archwiliadau ymarfer rheolaidd ac arsylwadau gan reolwyr ar bob lefel yn y gwasanaeth a dulliau adrodd yn y prosesau rheoli. |
| 9.6 | Sicrhau y cyflawnir yr holl gyfrifoldebau ac atebolrwydd uchod yn y gwasanaethau a gomisiynir yng Nghonwy, lle bo'n briodol, drwy drefniadau cydweithio rhyngasiantaethol rhanbarthol ac is-ranbarthol. |
| **10.** | **Rheoli Risg** |
| 10.1 | Adolygu holl weithgareddau a phrosiectau'r gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau y rheolir risgiau'n briodol. Sicrhau y rheolir risgiau drwy asesiadau risg, gweithdrefnau monitro risgiau a chamau i liniaru ar risgiau, gan gynnwys risgiau i weithwyr, y cyhoedd, cwsmeriaid y Cyngor, asedau'r Cyngor, risgiau diogelu a risgiau i enw da'r Cyngor. Mae'r meysydd risg y dylid eu rheoli yn cynnwys rheoli data, parhad busnes, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. |
| 10.2 | Rheoli'r risg o wynebu adolygiad barnwrol yn sgil penderfyniadau a wnaed wrth weithio ar achosion pobl ddiamddiffyn a phobl mewn perygl. |
| **11.** | **Cyfrifoldebau Adnoddau Dynol** |
| 11.1 | Sicrhau rheolaeth ansawdd uchel a chyson ar allu a pherfformiad staff. |
| 11.2 | Sicrhau y datblygir cynllun ar gyfer y gweithlu sy'n gyson â phrosesau cynllunio busnes, gan gydweithio gydol y Cyngor a chyda chyrff allanol i gyflawni gofynion y cynllun. |
| 11.3 | Cyfrannu at ddatblygiadau'r gweithlu rhanbarthol. |
| 11.4 | Derbyn myfyrwyr sy'n ymgymryd â chymhwyster proffesiynol a gweithio mewn partneriaeth â'u sefydliadau addysgol i adolygu a datblygu maes llafur y cyrsiau. |
| 11.5 | Rheoli absenoldebau i gyflawni targedau perfformiad allweddol. |
| 11.6 | Sicrhau perthnasau a chyfathrebu effeithiol ac adeiladol gyda'r staff. |
| 11.7 | Sicrhau recriwtio effeithiol a chynaliadwy i gyflawni amcanion y sefydliad. |
| **12.** | **Cydraddoldeb a Diogelu** |
| 12.1 | Hyrwyddo egwyddorion Polisi Cydraddoldeb y Cyngor a Chynllun Conwy Gynhwysol. |
| 12.2 | Fel uwch-arweinydd, cyfrannu at greu a chynnal diwylliant agored a chefnogol sy'n gwneud y mwyaf o botensial gweithwyr gydol y sefydliad ac yn annog cynhwysiant, arloesi a pherfformiad uchel. |
| 12.3 | Sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu ei gyfrifoldebau cydraddoldeb a chynaladwyedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol gan dynnu sylw at risgiau a materion o bwys. |
| 12.4 | Cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau'r Cyngor yn effeithiol ym maes diogelu, gan sicrhau y nodir diogelu fel cyfrifoldeb i holl staff y Cyngor. |
| 12.5 | Arwain y drefn o ddarparu cefnogaeth a chyngor ynglŷn â materion diogelu sy'n codi yn y gwasanaeth. |

| 13. | **Cyfrifoldebau Dirprwyedig** |
|---|---|
| 13.1 | Ymgymryd â pha bynnag ddyletswyddau a chyfrifoldebau y mae'n rhesymol i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol eu pennu drwy'r cynllun dirprwyo, ac yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau. |
| 13.2 | Ymateb i gwynion gan y cyhoedd ac ymholiadau gan Aelodau, Gweinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru, cyrff rheoleiddio, y Crwner a'r Ombwdsmon. |

## Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad:

| | |
|---|---|
| 1. | Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn gwbl gyfrifol am eu gwasanaeth a rheolir eu perfformiad gan y Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau. |
| 2. | Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydbwyso cyfrifoldebau strategol a gweithredol, rheoli gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Cyflawni cyfrifoldebau i bartneriaid statudol wrth ddarparu gwasanaethau amlddisgyblaethol a dyletswyddau statudol. |
| 3. | Mae'n ofynnol bod deiliad y swydd yn gallu strwythuro materion cymhleth a llunio penderfyniadau cytbwys a gwybodus. Bydd gan ddeiliad y swydd y gallu a'r weledigaeth i ragweld a dylanwadu ar newid mewn ymateb i anghenion a ganfyddir a meddu ar y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol i reoli materion cymhleth a galwadau niferus mewn amgylchedd dynamig, gan gynnwys ar lefel rhyng-asiantaethol a rhanbarthol. |
| 4. | Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am raglenni gwaith corfforaethol a datblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol. |

## Gwiriadau Cyflogi/Gofynion Penodol:

| | |
|---|---|
| 1. | Swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. |

## Gweledigaeth/Cyd-destun:

| | |
|---|---|
| 1. | Disgwylir i ddeiliad y swydd arddangos agwedd ac ymddygiad arweinyddol, sgiliau rheoli a chyfrifoldeb i greu diwylliant o weithio fel tîm, cydnabod llwyddiant, cyfathrebu yn ôl ac ymlaen a gwella'n barhaus. Creu diwylliant o ymddiriedaeth a chydweithio i gyflawni canlyniadau, gan ddysgu gan ein gilydd wrth gyflawni ein cyfrifoldebau rheoli cyffredin, boed hynny yn yr adran neu wrth gynrychioli Conwy ar fyrddau is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. |
| 2. | Herio partneriaid allweddol yn effeithiol wrth drafod a chyflawni swyddogaethau statudol. |
| 3. | Gweithio ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd, partneriaid statudol a chyrff rheoleiddio. |

## Dyddiad Adolygu/Hawl i Amrywio

Ni fwriedir i'r swydd-ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gyflawn o holl ddyletswyddau'r swydd. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i adolygu cynnwys y swydd-ddisgrifiad hwn; gellid diwygio ei gwmpas yn sgil y newid o ran blaenoriaethau yn y dyfodol. Nid yw'r gwasanaethau a reolir o reidrwydd yn sefydlog ac mae'n bosibl y byddant yn newid eto yn y dyfodol wrth i flaenoriaethau corfforaethol neu anghenion sefydliadol newid.





# Manylion am yr Unigolyn

**Swydd: Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid**

**Sylwer: Er mwyn cael eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y swydd hon, bydd yn rhaid i chi ddangos eich bod yn bodloni pob un o'r meini prawf H - Hanfodol.**

| Ffactor | Gofynion | Sut y caiff ei brofi | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg a Chymwysterau** | Gradd neu gymhwyster arall cyfwerth (lefel 6) neu brofiad helaeth fel uwch-reolwr mewn sefydliad mawr a chymhleth. | FfG | H | |
| | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | FfG | H | |
| | Cymhwyster Rheoli Cydnabyddedig neu fod yn Aelod o sefydliad proffesiynol perthnasol. | FfG | | D |
| | Mae'n hanfodol gallu cyfathrebu yn Saesneg. | FfG/C | H | |
| | Mae'r gallu i siarad Cymraeg i lefel 2 yn ddymunol. Mae Lefel 2 yn golygu eich bod yn gallu rhoi a gofyn am fanylion personol a sylfaenol; gwneud ceisiadau syml a dweud ychydig ymadroddion amdanoch chi eich hun yn Gymraeg. **Cliciwch yma** i weld y canllawiau ar gyfer y lefelau. | FfG/C | | D |
| | Mae'n ddymunol gallu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. | FfG/C | | D |
| **Profiad Perthnasol** | Prawf o gyfrannu'n barhaus at arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys cyflawni newid cymhleth a rhaglenni moderneiddio a chreu buddion o hynny. | FfG/C | H | |
| | Hanes o lwyddiant wrth fod yn uwch-reolwr mewn sefydliad mawr a chymhleth a thystiolaeth o gyflawni canlyniadau strategol yn llwyddiannus. | FfG | H | |
| | Dealltwriaeth o sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau mawr, cymhleth. | FfG/C | H | |
| | Profiad gydweithio a datblygu cysyniadau, cynigion a strategaethau ar gyfer sefydlu trefniadau cydweithio'n effeithiol. | FfG/C | H | |
| | Profiad o ddatblygu a chyflawni strategaethau gwella corfforaethol a thystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol. | FfG | H | |
| | Profiad o ddatblygu a chyflawni strategaethau digidol corfforaethol neu strategaethau cwsmeriaid. | FfG | | D |
| | Profiad o ddatblygu a chynnal prosesau rheoli perfformiad a rheoli cyllidebau ar lefel uwch mewn Awdurdod Lleol neu sefydliad perthnasol arall. | FfG/C | H | |
| | Gallu meddwl a chynllunio'n strategol, dadansoddol ac o safbwynt ariannol pan gyfyd problemau cymhleth, a chanfod dulliau creadigol a dyfeisgar o'u datrys. | FfG/C | H | |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r prif faterion y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu a'u goblygiadau posib. | FfG/C | | D |
| **Gwybodaeth a Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd** | Prawf o lwyddiant wrth ddefnyddio technoleg, data a dyfeisgarwch digidol i gyflawni gwell canlyniadau. | FfG/C/Cyfl | H | |
| | Profiad o reoli cyllidebau cymhleth ac adnoddau eraill. | FfG | H | |
| | Doethineb graff ar gyfer rheoli newid a phrosiectau. | FfG/C | H | |
| | Gwybodaeth am seibrddiogelwch, risgiau digidol a llywodraethu TG. | FfG | H | |
| | Profiad o ddatblygu neu weithredu strategaethau cwsmeriaid ar gyfer sefydliad. | C | H | |
| | Profiad o ffurfio a datblygu partneriaethau ag amrywiaeth helaeth o gyrff mewnol ac allanol. | FfG/C | H | |
| | Arweinydd cryf ond sensitif, sy'n gallu creu a chyflawni gweledigaeth a hyrwyddo a chynnal ymdeimlad cryf o genhadaeth. | C/Cyfl | H | |
| | Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm yn ogystal ag arweinydd. | C | H | |
| | Ymrwymo i nodi a datblygu talent drwy hyfforddi a mentora. | FfG | H | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Profiad o weithio gydag aelodau etholedig ac aelodau bwrdd anweithredol mewn modd adeiladol a gwleidyddol sensitif. | FfG/C | | D |
| **Rhinweddau Personol** | Gallu arddangos diplomyddiaeth, tact, perswâd, trafod, eiriolaeth a phendantrwydd. | C/Cyfl | H | |
| | Prawf o fedru ymdrin â materion rheoli a sefydliadol anodd yn gadarn ac yn sensitif. | FfG/C/Cyfl | H | |
| | Profiad o wneud penderfyniadau anodd a/neu ddadleuol a pharodrwydd i'w gwneud. | C/Cyfl | H | |
| | Ymddygiad, uniondeb a hygrededd personol sy'n ennyn hyder a pharch aelodau, rheolwyr, staff, cymunedau lleol, partneriaid allanol a budd-ddeiliaid. | C | H | |
| | Sgiliau personol, ysgrifenedig, llafar a chyflwyniadol ardderchog a medru rhoi cyflwyniadau eglur, cynhwysfawr ac argyhoeddiadol am faterion cymhleth i amrywiaeth helaeth o gynulleidfaoedd. | C/Cyfl | H | |
| | Yn hyblyg eich meddwl gyda'r gallu a'r profiad i 'feddwl ar eich traed'. | C | H | |
| | Ymagwedd agored, gadarnhaol ac argyhoeddiadol gyda sgiliau rhyngbersonol ardderchog. | C | H | |
| | Profiad o ysgogi eraill, trafod telerau â hwy a dwyn perswâd arnynt. | FfG/C | H | |
| | Brwdfrydig, ymroddedig, yn gallu ysgogi eich hun ac yn meddu ar ymdeimlad cryf o bwrpas a chymhelliant i gyflawni. | G | H | |
| | Cryn egni a stamina, gwytnwch amlwg a medru cyflawni dan bwysau. | FfG/C | H | |
| | Derbyn cyfrifoldeb am gamgymeriadau a'u defnyddio fel cyfleoedd dysgu ar gyfer y gwasanaeth. | G | H | |
| | Cryn gywirdeb ac uniondeb ac yn unigolyn agored a gonest. | G | H | |
| | Dangos gwytnwch a chadernid o dan bwysau. | G | H | |
| | Ymatebol a hyblyg i alwadau a blaenoriaethau sy'n newid. | G | H | |



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Addasu arddull bersonol i gwrdd â gofynion sefyllfaoedd cymhleth. | C/G | H | |
| | Cymhelliant cryf ar gyfer llwyddiant a pherfformiad. | C/G | H | |
| | Dangos ymrwymiad a dealltwriaeth bendant o gynhwysiant a thystiolaeth o'r ffordd y mae eu dull o arwain yn hyrwyddo cynhwysiant, tegwch ac ymdeimlad o berthyn. | FfG/C | H | |
| | Tystiolaeth o gael effaith wrth greu amgylcheddau cynhwysol, cael gwared â rhwystrau, rhoi llais i bobl na chânt eu cynrychioli'n ddigonol a mynd ati bob dydd i wreiddio ymarferion cynhwysol wrth wneud penderfyniadau. | FfG/C | H | |
| | Empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymru. | C | H | |
| **Gofynion Eraill** | Gallu teithio ledled y Fwrdeistref Sirol a thu hwnt i ymgymryd â gwaith; mynd i gyfarfodydd, er enghraifft. | FfG | H | |

Sylwer: Er mwyn cael eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y swydd hon, bydd yn rhaid i chi ddangos eich bod yn bodloni pob un o'r meini prawf H - Hanfodol.

Byddwn yn canfod a ydych chi'n bodloni'r gofynion ar sail y:

- Ffurflen Gais (FfG)
- Cyfweliad (C)
- Prawf yn y cyfweliad (P)
- Cyflwyniad yn y cyfweliad (Cyfl)
- Gwiriad (Gw)
- Geirda (G).

## Graddfa Gyflog Prif Swyddog 01/04/2025-26

| | | 01/04/2025 |
|---|---|---|
| **Penaethiaid Gwasanaeth 2 (H5 - H8)** | H5 | £74,688 |
| | H6 | £77,228 |
| | H7 | £80,983 |
| | H8 | £85,716 |

# Amodau a Thelerau Gwasanaeth/ Buddiannau Gweithiwr

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid

| | |
|---|---|
| **Cyflog** | £74,688 - £85,716. Graddfa gynyddrannol 4 pwynt.<br>Bydd y cyflog yn cael ei dalu drwy drosglwyddiad credyd uniongyrchol ar y 15fed o bob mis. |
| **Amodau Gwasanaeth** | Bydd yr amodau a'r telerau cyffredinol yn unol â rhai'r Cydbwyllgor Trafod Telerau ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol a phan fo'n briodol, telerau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. |
| **Gwyliau Blynyddol** | 33 o ddiwrnodau a gwyliau banc. |
| **Banc Gwyliau** | Gallu bancio hyd at 5 diwrnod y flwyddyn a chael banc gwyliau hyd at 20 diwrnod. |
| **Cynllun Pensiwn** | Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. |
| **Oriau Gwaith** | Mae'r wythnos waith swyddogol yn 37 awr. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad oes modd cyflawni'r swydd yn foddhaol gydag wythnos waith benodol ac felly bydd angen gweithio rhywfaint o oriau anghymdeithasol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau. Mae hyn wedi'i ystyried wrth bennu cyflog y swydd a'r amodau cyflogaeth eraill. |
| **Cyfnod Rhybudd** | Mae'r penodiad yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis gan bawb. |
| **Gweithgareddau Allanol** | Bydd deiliad y swydd yn gorfod rhoi ei holl amser i wasanaeth y Cyngor ac ni fydd yn ymgymryd ag unrhyw fusnes neu'n derbyn penodiad arall heb gydsyniad datganedig gan y Cyngor. Ni fydd deiliad y swydd yn gosod ei ddyletswyddau'n israddol i'w fuddiannau personol nac yn rhoi ei hun mewn sefyllfa lle mae dyletswyddau a buddiannau personol yn gwrthdaro. |
| **Cyfyngiadau Gwleidyddol** | Dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'r swydd hon yn swydd benodedig ac felly bydd y deiliad wedi'i atal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol penodol fel y nodir yn y Ddeddf. Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd ddangos amhleidioldeb. |
| **Treuliau Symud** | Efallai bod pecyn treuliau symud/adleoli ar gael. Gellir trafod hyn ymhellach gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. |
| **Teithio** | Yn unol â pholisi'r Cyngor, ad-delir milltiroedd busnes i staff. Mae cynllun y Cyngor yn seiliedig ar gyfraddau di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae dal a chadw trwydded yrru yn y Deyrnas Unedig neu fedru defnyddio cludiant i deithio'n un o amodau'r swydd. |



| | |
|---|---|
| **Gostyngiadau a Chynigion** | Ceir mynediad at fargeinion lleol a bargeinion y stryd fawr drwy wefan bwrpasol i staff, gyda phrisiau rhad am docynnau sinema, siopau a theithio. |
| **Ffisiotherapi** | Mynediad i wasanaeth ffisiotherapi buan i dderbyn cymorth arbenigol ar gyfer problemau cefn a sglerosis ymledol. |
| **Rhaglen Cymorth i Weithwyr a Chwnsela** | Mae'r gwasanaeth cwnsela/Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn cynnwys:<br>• Gwasanaeth cwnsela a gwybodaeth 24/7 dros y ffôn<br>• Cwnsela wyneb yn wyneb pan fo angen<br>• Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor arbenigol (dros y ffôn ac ar-lein 24/7) ar ddyledion, budd-daliadau a materion teuluol a phersonol. |
| **Aelodaeth Ffit Conwy** | Talu 40% yn llai am aelodaeth 'Ffit Conwy'. Mae'r cynllun yn caniatáu i weithwyr ddefnyddio holl gyfleusterau hamdden y sir. |
| **Cynlluniau Aberthu Cyflog** | Mae cynlluniau Aberthu Cyflog yn gweithredu mewn nifer o feysydd gan gynnwys beicio i'r gwaith, ceir prydles, cartref a thechnoleg yn ogystal â Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. |
| **Talebau Gofal Llygaid** | Talebau i gael profion llygaid am ddim a phrynu sbectol newydd drwy'r Cynllun Talebau Gofal Llygaid. |
| **Lles Ariannol** | Dewisiadau ar gyfer benthyciadau a chynilion trwy gyflog. |

# Sut i Ymgeisio

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid, a'r cyfle i lunio ein taith i fod yn Sir Flaengar, sy'n Creu Cyfleoedd.

Mae Conwy yn croesawu ceisiadau o bob cefndir. Rydym ni'n cydnabod manteision gweithlu amrywiol ac yr ydym ni eisiau i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â sir Conwy gael eu croesawu a theimlo eu bod nhw'n cael eu derbyn a'u bod nhw'n perthyn.

Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol y swydd yn cael cyfweliad. Bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau gwaith addas ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Gall pobl anabl wneud cais ar wahanol ffurfiau. Cysylltwch â'r Tîm AD ar 01492 576129 i gael cyngor pellach.

**Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i gynorthwyo gyda'ch cais.**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Ni dderbynnir CV yn unig. Gallwch gyflwyno CV gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi'n gyflawn. Gwnewch yn siŵr bod eich manylion cyswllt yn cael eu cynnwys.

I wneud cais am y swydd cliciwch **yma**

- Gwnewch yn siŵr bod pob bwlch mewn hanes cyflogaeth ac addysg yn cael ei egluro'n llawn ar eich cais/CV; efallai byddwn yn gwirio'r wybodaeth yn ystod y broses recriwtio
- Rhowch fanylion dau ganolwr. Sylwch byddwn ond yn mynd at ganolwyr os bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad a dim ond gyda'ch caniatâd chi. Nodwch yn glir os allwn ni fynd at bob un canolwr cyn y dyddiad dewis
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r afael â'r gofynion allweddol a nodir yn y manylion am yr unigolyn
- Llenwch y Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal pan fyddwch yn uwchlwytho eich manylion. Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl swyddi yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned ac yn defnyddio'r data i fonitro ein cynnydd wrth wneud hyn
- Cyflwynwch eich cais ac unrhyw wybodaeth gefnogol erbyn y dyddiad cau
- Ar ôl y dyddiad cau, bydd aelod o'r Gwasanaeth AD yn cysylltu â chi maes o law i ddiweddaru statws eich cais
- Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau technegol wrth lenwi'r ffurflen gais ar-lein, cysylltwch â **cefnogaethsystemad@conwy.gov.uk** / 01492 576129.

Mae Conwy wedi ymrwymo i ddiogelu. Bydd cymwysterau a geirdaon yn cael eu dilysu.

Mae Conwy wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg ac ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg.

Os nad ydych wedi cael gwahoddiad i gyfweliad o fewn tair wythnos o'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.



Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r dyddiadau allweddol yn y broses recriwtio:

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Dyddiad cau | Hanner nos, 10 Ebrill 2026 |
| Tynnu Rhestr Fer (dim angen i'r ymgeiswyr fod yn bresennol) | 16 Ebrill 2026 |
| Proses Asesu Ar-lein (Profion Seicometrig) | 20 - 26 Ebrill 2026 |
| Cyfarfod gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol | 30 Ebrill 2026 |
| Cyfweliad gyda'r Uwch Bwyllgor Cyflogaeth | 1 Mai 2026 |

# Diolch

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd Pennaeth Arloesi a Thrawsnewid, a'r cyfle i llywio ein taith i fod yn **Sir Flaengar sy'n Creu Cyfleoedd**.

**Dyddiad car ar gyfer ceisiadau: Hanner nos, 10 Ebrill 2026.**

## Os oes gennych unrhyw ymholiadau

- Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r swydd, cysylltwch ag Amanda Hughes, Cyfarwyddwr Strategol, Cyllid ac Adnoddau: **amanda.hughes2@conwy.gov.uk**
- Am wybodaeth bellach ac i wneud cais am y swydd cliciwch **yma**
- Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau technegol wrth lenwi'r ffurflen gais ar-lein, cysylltwch â **cefnogaethsystemad@conwy.gov.uk** / 01492 576129.

**www.conwy.gov.uk/EinProsesRecriwtio**


Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

01492 574000

conwy.gov.uk

facebook.com/CBSConwy

instagram.com/CBSConwy

linkedin.com/company/CBSConwy


Dogfen wedi'i dylunio gan Gyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy